# Canllawiau Llunio Talentlink Prifysgol Bangor

## Canllaw 4: Y broses gymeradwyo – i’r rhai sy'n creu archebion swydd


### Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn disgrifio'r broses o anfon swyddi i gael eu cymeradwyo wedi i chi eu cadw, a gweld ceisiadau swydd yn Talentlink.

Adran A: Anfon i gael cymeradwyaeth ar ôl cadw
Adran B: Anfon cam cymeradwyo ymlaen
Adran C: Cadw llygad ar y statws cymeradwyo
Adran D: Ailddechrau'r gadwyn gymeradwyo ar ôl gwrthodiad

### Adran A: Anfon i gael cymeradwyaeth ar ôl cadw

- Dewiswch y swydd yr ydych am ei hanfon i gael ei chymeradwyo




- Mae tudalen fanylion yr archeb newydd yn cael ei dangos. Cliciwch ar y tab ‘**Proses Cymeradwyo Archeb**’.




- Cliciwch ⋮ ar a dewiswch **Cychwyn Cadwyn Gymeradwyo**

- Wedi i chi glicio ar Cychwyn Cadwyn Gymeradwyo, bydd ffenestr newydd yn agor.



- Nodwch/golygwch y testun ym maes y neges (os oes angen)
- Dewiswch **Ceisio Hysbysiad Wedi Cwblhau** er mwyn derbyn e-bost pan fydd y cam wedi'i gymeradwyo
- Os hoffech i'r adolygiad gael ei gwblhau cyn dyddiad penodol, nodwch y dyddiad yn y maes **Dyddiad Cyflwyno**
- Cliciwch ar **Cyflwyno** er mwyn dechrau'r gadwyn gymeradwyo

Ar dudalen **Proses Cymeradwyo Archeb** y swydd, gallwch weld fod y broses gymeradwyo wedi dechrau.


## Adran B: Blaenyrru cam cymeradwyo

Gall defnyddiwr flaenyrru cam i gael ei gymeradwyo at gymeradwywr arall. Er enghraifft, pan fyddwch yn gwybod yn bendant fod y cymeradwywr gwreiddiol ar wyliau, gallwch flaenyrru'r cam cymeradwyo at ddefnyddiwr arall er mwyn osgoi oedi yn y broses o greu archeb swydd. Hefyd, pe baech chi'n gwneud camgymeriad wrth ddewis y cymeradwywyr, gallwch flaenyrru'r cam cymeradwyo at y cymeradwywr cywir.

- Ar y tab **Proses Cymeradwyo Archeb**, cliciwch ar **Blaenyrru**, sef y botwm i'r dde o'r cam yr hoffech ei yrru ar gymeradwywr arall.





- Dewiswch y cymeradwywr newydd




- Nodwch/golygwch neges yn y blwch **Sylwadau** (os oes angen)
- Cliciwch ar **Cyflwyno** er mwyn blaenyrru'r neges at ddefnyddiwr arall

## Adran C: Cadw llygad ar y statws cymeradwyo

- Ewch i'r tab **Proses Cymeradwyo Archeb** er mwyn gweld statws cymeradwyo pob cymeradwywr




Yn yr enghraifft hon gellwch weld bod cymeradwyaeth y Pwyllgor Gweithredu yn gyflawn. Mae Adnoddau Dynol wedi cymeradwyo'r swydd ond nid yw Cynllunio a Chyllid wedi ei chymeradwyo neu ei gwrthod hyd yma.

## Adran D: Ailddechrau'r gadwyn gymeradwyo ar ôl gwrthodiad

Gallai cais am swydd gael ei wrthod am sawl rheswm. Os yw'r newidiadau hyn yn syml, efallai y byddai'r cymeradwywr yn cysylltu â chi i holi am newid i'r cais am swydd ac yna'n ei newid a'i ail-anfon eu hunain. Ond, os yw'r newid yn un mawr, efallai y bydd rhaid i chi olygu ac ail-anfon y cais eich hunan.

- Ar y tab **Proses Cymeradwyo Archeb**, gallwch weld pan fydd cam cymeradwyo wedi'i wrthod. Byddwch hefyd yn derbyn neges yn eich **Canolfan Cyfathrebu** yn rhoi gwybod i chi ei bod wedi'i gwrthod.




- Gallwch weld unrhyw negeseuon y mae'r cymeradwywyr wedi'u gadael i chi, gyda rhesymau dros wrthod, drwy glicio ar **Gweld Hanes**, i'r dde o'r cam cymeradwyo. Bydd ffenestr newydd yn agor


HANES PROSES CYMERADWYO ARCHEB

Archeb Copi o Administrative Assistant


HIDLYDD

Cam Llif Gwaith Job Approval (HR, Planning


| DYDDIAD | CAM CYMERADWYO | ANFONWR | DERBYNNYDD | GWEITHRED | SYLWADAU |
|---|---|---|---|---|---|
| 25/10/2017 | Job Approval (HR, Planning, Fin RC) | Luke Jade | Luke Jade | Gwrthodwyd | From the job description, this post should be grade 8 not grade 7. Please amend the job requisition to reflect this change and re-start the approval process |
| 25/10/2017 | Job Approval (HR, Planning, Fin RC) | GSA Bangor | Mundy (Plan) Kevin | Wedi cyflwyno | BU00810 - Cais am gymeradwyo swydd / Job Approval required : Copi o Administrative Assistant in Estates<br>Cais gan / Request from Bangor GSA - |

➢ Yma bydd gennych hanes llawn o'r ohebiaeth rhyngoch chi a'r tîm cymeradwyo

➢ Ar ôl gwneud y newidiadau angenrheidiol, o'r tab Proses Cymeradwyo Archeb, cliciwch ⋮ ac yna dewis **Ailgychwyn Cadwyn Gymeradwyo**[1]**.** Bydd ffenestr newydd yn ymddangos




➢ Nodwch/golygwch y neges (os oes angen) a chliciwch ar **Cyflwyno**




---

[1] Bydd y linc Ailgyflwyno i Gymeradwyo wrth ochr y rhestr wrthod ond yn anfon hwn yn ôl atoch i'w gymeradwyo. Felly, ni ddylech ddefnyddio'r botwm hwn.

- Y cymeradwywr gwreiddiol fydd yn derbyn y dasg hon